

# Parti Traeth Coed Duon

## Beth Sydd Ymlaen 2024

<b>Perfformiwr</b>	<b>Amser</b>
Traeth trefol	Drwy'r dydd
Cadair gynfas anferth	Drwy'r dydd
Stondinau	Drwy'r dydd
Llwyfan Gymunedol Cyngor Tref Coed Duon	Drwy'r dydd
Reidiau ar gefn asynnod	Drwy'r dydd
Fferm anwesu	Drwy'r dydd
Gweithdai crefft creu a chymryd	Drwy'r dydd
Hwyl môr-ladron	Drwy'r dydd – Sioeau amrywiol wedi'u hamseru
Wildlife Displays	Drwy'r dydd
Photo Props	Drwy'r dydd
Gwasanaeth Tân	Drwy'r dydd
Falconry UK	Drwy'r dydd
Paentio wynebau	Drwy'r dydd
Plethu gwallt	Drwy'r dydd
Reidiau ac atyniadau ffair hwyl	Drwy'r dydd
Llyfrgell – Sialens Ddarllen yr Haf	9.30am – 4.00pm

(Gall yr holl wybodaeth newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi'r wybodaeth.)

### Traeth Trefol



Pwy sydd angen mynd i'r traeth pan fydd Stryd Fawr Coed Duon yn cael ei thrawsnewid yn draeth bach am y penwythnos? Gyda chadeiriau cynfas a bwcedi a rhawiau i gyd wrth law, mwynhewch ddiwrnod ymlaciol ar draeth trefol Coed Duon!

**Facebook: Visit Caerphilly**

### Stondinwyr



Mae dros 25 o stondinwyr yn bwriadu dod i'r dref, gan werthu popeth o deisennau cwpan anhygoel, gin blasus a brownis melys! Heb anghofio'r stondinau elusennol, gwybodaeth a chrefft.

**Facebook: Visit Caerphilly**

### Cadair Gynfas Anferth



Neidiwch i'r gadair fawr hon a chael tynnu'ch llun. Rhannwch eich lluniau â ni ar Facebook, Instagram a Twitter (@VisitCaerphilly)!

**Facebook: Visit Caerphilly**

### Reidiau ar gefn asynnod



Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am ddim ar gael trwy'r dydd!

**Facebook: Mike's Donkeys**

### [Ardal Llwyfan Gymunedol Cyngor Tref Coed Duon](#)



Bydd ardal llwyfan cymunedol Cyngor Tref Coed Duon yn gartref i amrywiaeth o gerddorion ac adloniant lleol dros y penwythnos. O gantorion a dawnswyr i gerddorion a bandiau, dewch i fwynhau'r hyn sydd gan y gymuned leol i'w gynnig. Rhaglen dan ei sang i bob oedran ei mwynhau!

**Facebook: Blackwood Town Council**

### [Reidiau ac Atyniadau Ffair Hwyl](#)



Hefyd, bydd tŷ hwyl traddodiadol, trampolinau, a chwpanau a soseri i ddifyrru'r plantos yn ogystal â'r Miami ar gyfer bobl ifanc yn eu harddegau a llawer mwy!

**Facebook: Denzil Danter Fun Fairs**

### [Gweithdai crefft creu a chymryd](#)



Dewch draw i wneud crefftau â thema'r haf... o lolis iâ, hufen iâ a syndis hufen iâ! Mae'r gweithdy hwn yn cynnig cyfle i blant fod yn greadigol a chael ychydig o hwyl!

**Facebook: Creative Workshops for Children**

### [Falconry UK](#)



Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael lluniau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefnidir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

**Facebook: Falconry UK**

## Paentio Wynebau



Trawsnewidiwch yn dywysog, tywysoges, archarwr neu anifail. Mae gan Tracey's Funky Faces y ddawn hudol i'ch trawsnewid chi'n gymeriad o'ch dewis, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi ddisgleirio!

**Facebook: Traceys Funky Faces**

## Plethu Gwallt



Rydych chi ar y traeth, felly mae'n bryd cael y blethen gwallt gwyliau! Dewiswch eich hoff liwiau a gleiniau a mynd mewn i ysbryd y gwyliau!


**Facebook - Charly's Braids**

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (Gorsaf Dân Aberbarqod)



Cyfle i'r plantos ddod yn agos at injan dân go iawn, dysgu am beth mae'r criw yn ei wneud!

## Anifeiliad Egsotig gyda Wildlife Displays



Swricatïaid, nadroedd, madfallod, pryfed cop, sgorpïonau, chwïlod duon hisian, malwod enfawr ac ati. Ardal ryngweithiol AM DDIM gyda sgysïau byr a chyfleoedd ymarferol drwy gydol y dydd.

**Website: [www.wildlifedisplays.co.uk](http://www.wildlifedisplays.co.uk)**



Facebook: Gorsaf Dân Ac Achub Aberbargod/Aberbargoed Fire and Rescue Station

Lluniau Traeth



Mwynhewch luniau hwyl o'r teulu AM DDIM yn y bwth tynnu lluniau hwn!

Facebook: Craft Wales

Hwyl Môr-Ladron



Mae 'Event Character Hire South Wales' yn dod â'r môr-ladron drwg i Risga! A hwythau wedi'u llongdryllio ar draeth Rhisga, mae'n ymddangos nad yw bywyd ar y môr bob amser yn bodloni disgwyliadau! Ymunwch â'n criw o fôr-ladron ysbeilgar wrth iddyn nhw gwrdd a chyfarch a chwilio am griw newydd - ydych chi'n ddigon dewr? Gwylwch wrth iddyn nhw berfformio sioe môr-ladron hynod o hwyl bob awr a pheidio ag anghofio tynnu cwpl o luniau gyda'r 'Band of Brigands' direidus.

Facebook: Event Character Hire - South Wales

## Llyfrgell Coed Duon



Bydd Sialens Ddarllen Flynyddol yr Haf yn cael ei chynnal yn Llyfrgell Coed Duon, a fydd yn dechrau ddydd Sadwrn 6ed Gorffennaf ac yn gorffen ar ddydd Sadwrn 7fed Medi. Yn ystod cyfnod yr haf gwahoddir plant i ymuno â'r her a darllen chwe llyfr o'u dewis a all gynnwys e-lyfrau, e-lyfrau llafar. Ar hyd y ffordd, byddant yn derbyn gwobrau am lyfrau a ddarllenir ac, ar y diwedd, yn cael eu cynnwys mewn raffl i bob cangen ac un ar gyfer y sir gyfan.

Thema eleni yw – Gwneuthurwyr Gwych. Galwch draw ar ddiwrnod y digwyddiad i weld sut i gymryd rhan!

## Fferm Anwesu



Fferm anwesu AM DDIM i deuluoedd i ddod i adnabod creaduriaid del ac annwyl. Yn cynnwys geifr, defaid, wŷn, asynnod bychain, cwningod a moch cwta. Gofynnwch gwestiynau am yr anifeiliaid annwyl hyn a dysgu am eu harferion.

**Facebook: Mike's Donkeys**

**Facebook: Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili - Caerphilly Library  
Service**